Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllaw Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2026-2027

Ionawr 2026

Dyma Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru sy'n esbonio ein buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus hanfodol fel iechyd, addysg a llywodraeth leol.

# Mae gennym gyllideb o **£27.5bn** ar gyfer y flwyddyn o 1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2027.

Mae'r gyllideb hon yn buddsoddi mewn pobl, gwasanaethau cyhoeddus a busnesau ledled Cymru. Mae £1.2bn yn fwy nag yn 2025-26. Mae'r Gyllideb Derfynol yn dyrannu £400m o fuddsoddiad ychwanegol ers y Gyllideb Ddrafft ym mis Hydref.



# Datblygiadau ers y Gyllideb Ddrafft

Cafodd y Gyllideb Ddrafft Amlinellol ei chyhoeddi ar 14 Hydref 2025 a'r Gyllideb Ddrafft Fanwl ar 3 Tachwedd. Yna aeth Pwyllgorau'r Senedd ati i archwilio'r cynigion a chyflwyno eu hadroddiadau.

### Cytundeb y Gyllideb

Fe wnaeth cytundeb y Gyllideb gyda Phlaid Cymru sicrhau £300m yn fwy i lywodraeth leol a'r GIG.

## Ffeithiau Allweddol

- **Cyfanswm y gyllideb:** £22.8bn o refeniw, £3.6bn o gyfalaf, ynghyd â £1.1bn o gyllid ardrethi busnes ar gyfer llywodraeth leol.
- £100m ychwanegol i gefnogi gwasanaethau bysiau, prentisiaethau, addysg bellach, atal llifogydd, a chynnal a chadw adeiladau ysgolion.

# Sut mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu?


**Trethi Datganoledig**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Grant Bloc | Ardrethi Annomestig | Cyfraddau Treth Incwm Cymru | Y Dreth Trafodiadau Tir | Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | Benthyca |
| £22.1bn | £1.1bn | £4.0bn | £399m | £37m | £165m |

**Cyllideb Cymru**

# Trethi Datganoledig yng Nghymru

Rydym yn codi rhywfaint o'n harian yng Nghymru drwy drethi sydd wedi'u datganoli. **Tua 20% o'n cyllideb gyfan** yw'r arian hwn. Rydym yn gallu gwneud penderfyniadau am y trethi hyn i ddod â mwy o arian i Gymru.




- **Cyfraddau Treth Incwm Cymru**: Mae Llywodraeth Cymru yn gallu gosod ei chyfraddau treth incwm ei hun, ac mae'r dreth yn cael ei chasglu gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi.
- **Treth Trafodiadau Tir:** Treth i'w thalu os byddwch yn prynu eiddo neu dir dros drothwy pris penodol yng Nghymru, sy'n cael ei chasglu gan Awdurdod Cyllid Cymru.
- **Treth Gwarediadau Tirlenwi:** Treth ar wastraff i annog llai ohono, sy'n cael ei rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru.
- **Ardrethi Annomestig:** Mae ardrethi busnes yn cael eu codi ar y rhan fwyaf o eiddo annomestig fel siopau, swyddfeydd, tafarndai, warysau, ffatrïoedd, tai a osodir i ymwelwyr a thai llety.

# Y Grant Bloc

Mae cyfran o gyfanswm yr arian sy’n cael ei godi drwy drethi yn y DU yn dod i Gymru drwy grant bloc gan Lywodraeth y DU. Arian yw hwn sy’n cael ei godi drwy drethi ledled y DU ac sydd wedyn yn cael ei ddyrannu i Lywodraeth Cymru.





## Fformiwla Barnett


Fformiwla Barnett yw’r dull sy’n cael ei ddefnyddio i addasu’r Grant Bloc pan fydd Llywodraeth y DU yn newid gwariant ar wasanaethau yn Lloegr sydd wedi’u datganoli i Gymru. Pan fydd gwariant Llywodraeth y DU yn y meysydd hyn yn mynd i fyny neu i lawr, mae Cymru’n cael cyfran o’r newid hwnnw yn seiliedig ar y boblogaeth.

# Gwariant Llywodraeth Cymru 2026-27


| | | Cyfanswm Dyraniad Refeniw 2026-27[1] | Newidiadau ers 2025-26[2] | |
|---|---|---|---|---|
| | Iechyd a Gofal Cymdeithasol | £12,603 m | £ 441 m | 3.6% ▲ |
| | Tai a Llywodraeth Leol | £ 5,877 m | £ 319 m | 5.7% ▲ |
| | Addysg | £ 1,865 m | £ 52 m | 2.9% ▲ |
| | Trafnidiaeth | £ 706 m | £ 38 m | 5.7% ▲ |
| | Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | £ 597 m | £ 29 m | 5.0% ▲ |
| | Yr Economi, Ynni a Chynllunio | £ 497 m | £ 17 m | 3.5% ▲ |
| | Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | £ 454 m | £ 20 m | 4.5% ▲ |
| | Cyfiawnder Cymdeithasol | £ 144 m | £ 9 m | 6.6% ▲ |

*[1]Dyma gyfanswm yr adnoddau cyllidol yng Nghyllideb Derfynol 2026-27*
*[2]Dyma'r newidiadau rhwng y llinell sylfaen ddiwygiedig a Chyllideb Derfynol 2026-27.*


Yr Economi, Ynni a Chynllunio
3.10%
Cyfiawnder Cymdeithasol
0.62%
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
3.50%
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu
1.81%
Trafnidiaeth
4.83%
Addysg
8.65%
Refeniw a Chyfalaf wedi'u cyfuno
Iechyd a Gofal Cymdeithasol
50.44%
Tai a Llywodraeth Leol
27.05%
% y cyfanswm ar gyfer pob un o feysydd gwario Llywodraeth Cymru



Yr Economi, Ynni a Chynllunio
£497m
2.19%
Cyfiawnder Cymdeithasol
£144m
0.63%
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
£597m
2.62%
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu
£454m
1.99%
Trafnidiaeth
£706m
3.11%
Addysg
£1,865m
8.20%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol
£12,603m
55.41%
Cyllid Refeniw (£m)
Tai a Llywodraeth Leol
£5,877m
25.84%
Cyllid (£m)
% o'r cyfanswm


Cyfiawnder Cymdeithasol
£18m
0.52%
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu
£21m
0.61%
Yr Economi, Ynni a Chynllunio
£316m
9.08%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol
£626m
17.97%
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
£322m
9.25%
Cyllid Cyfalaf (£m)
Trafnidiaeth
£561m
16.12%
Tai a Llywodraeth Leol
£1,215m
34.90%
Addysg
£402m
11.54%
Cyllid (£m)
% o'r cyfanswm

# Deall sut mae ein gwariant yn effeithio ar bobl Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi asesu sut mae'r penderfyniadau am y gyllideb yn effeithio ar wahanol grwpiau o bobl ym mhob cwr o Gymru. Gelwir hyn yn Asesiad Effaith Integredig Strategol.

Edrychodd yr asesiad ar yr effeithiau ar feysydd fel cydraddoldeb a llesiant. Fe wnaethom ystyried meysydd fel hawliau plant, newid hinsawdd, y Gymraeg, a phobl sy'n wynebu anfantais economaidd. Edrychwyd hefyd ar egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel cydweithredu, a gwario i atal.

Mae'r adroddiad llawn, sydd wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol, yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr effeithiau hyn a sut mae cydweithio gyda rhanddeiliaid wedi siapio'r gyllideb er mwyn gwasanaethu pobl Cymru yn well.

# Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae mwy na 55% o gyllideb refeniw Llywodraeth Cymru yn cael ei wario ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn ariannu cyflogau staff y GIG, gan gynnwys nyrsys, meddygon a deintyddion.

**Mae'r prif feysydd gwario yn cynnwys:**

**Gwasanaethau'r GIG** – Cyllid ar gyfer ysbytai, meddygon teulu, deintyddion, gofal cymunedol, meddyginiaethau a thriniaethau, gyda phwyslais ar leihau amseroedd aros a lleihau'r oedi cyn y gall cleifion adael yr ysbyty. Mae £180m ychwanegol i'r GIG yn y Gyllideb Derfynol.

**Gofal cymdeithasol** – Cyllid i helpu pobl i adael yr ysbyty yn gynt gyda'r gefnogaeth gywir wedi'i threfnu.

**Gofal Plant** – Cynnal y Cynnig Gofal Plant (30 awr i blant 3-4 oed) a'r cynllun Dechrau'n Deg i blant dwy oed.

**Atal salwch a gofal diwedd oes** – Buddsoddi mewn sgrinio, brechu, iechyd meddwl a gofal hosbis.

**Gwasanaethau gofal plant** – Anelu at roi diwedd ar wneud elw mewn gofal plant.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Tai a Llywodraeth Leol

Mae'r cyllid hwn yn cefnogi cynghorau lleol a'r maes tai yng Nghymru. Mae awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau hanfodol bob dydd gan gynnwys ysgolion, gofal cymdeithasol, casglu gwastraff a chymorth cymunedol. Mae'r cyllid hefyd yn helpu i adeiladu cartrefi newydd ac atal digartrefedd.

**Mae'r prif feysydd gwario yn cynnwys:**

**Llywodraeth leol** – £112.8m o gyllid ychwanegol i lywodraeth leol, gyda phob cyngor yn cael cynnydd o fwy na 4%.

**Atal digartrefedd** – Cyllid i helpu i atal digartrefedd a chefnogi pobl sydd mewn perygl o golli eu cartrefi.

**Adeiladu cartrefi newydd** – Buddsoddiad cyfalaf mewn tai cymdeithasol i ddarparu mwy o gartrefi ar rent cymdeithasol.

**Bod yn berchen cartref** – Helpu pobl i brynu tŷ a bod yn berchen ar eu cartref eu hunain.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Addysg

Mae cyllid addysg yn helpu pob plentyn yng Nghymru i gyrraedd eu potensial llawn. Mae'r rhan fwyaf o gyllid ar gyfer ysgolion yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan gynghorau lleol drwy lywodraeth leol.

**Mae'r prif feysydd gwario yn cynnwys:**

**Y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy** – £20m o gyfalaf ychwanegol ar gyfer adeiladau ysgolion a cholegau.

**Y Cwricwlwm i Gymru** – Cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Codi safonau ysgolion a gwella llythrennedd a rhifedd.

**Anghenion dysgu ychwanegol** – Darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol.

**Addysg Bellach ac Uwch** – Cymorth i fyfyrwyr 16 oed a hŷn. £5m ychwanegol yn y Gyllideb Derfynol i gefnogi mwy o ddysgwyr yn ein colegau.

**Prydau Ysgol am Ddim** – Rydym yn darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Yr Economi, Ynni a Chynllunio

Rydym yn helpu pobl i gael swyddi da ac yn helpu busnesau i dyfu, gan fuddsoddi hefyd mewn ynni gwyrdd ar gyfer y dyfodol.

**Mae'r prif feysydd gwario yn cynnwys::**

**Sgiliau a phrentisiaethau** – £5m ychwanegol ar gyfer prentisiaethau yn y Gyllideb Derfynol, gan helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd a dechrau eu gyrfa.

**Cymorth i Fusnesau** – Cefnogi entrepreneuriaid a busnesau bach ledled Cymru. Helpu busnesau i gychwyn, i dyfu ac i fod yn fwy effeithlon o ran ynni.

**Eiddo masnachol** – Darparu safleoedd sy'n barod ar gyfer buddsoddi ac adeiladau sy'n effeithlon o ran ynni ar gyfer busnesau.

**Diwylliant, treftadaeth a chwaraeon** – Cyllid i Gyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Allforio a mewnfuddsoddi** – Helpu busnesau Cymru i allforio ac i ddenu buddsoddiad i Gymru.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod argyfwng hinsawdd. Rydym yn gweithio i ddiogelu ein hamgylchedd, cefnogi swyddi gwyrdd a helpu ffermwyr ledled Cymru.

**Mae'r prif feysydd gwario yn cynnwys:**

**Ffermio** – Cefnogi ffermwyr drwy ein Cynllun Ffermio Cynaliadwy a rhaglenni iechyd anifeiliaid.

**Diogelu cymunedau** – Rheoli perygl llifogydd a sicrhau diogelwch tomenni glo.

**Dŵr a natur** – Gwella ansawdd dŵr ac adfer bioamrywiaeth.

**Coedwigaeth** – Coedwig Genedlaethol Cymru a chymorth i'r diwydiant pren.

**Datgarboneiddio** – Effeithlonrwydd ynni mewn colegau a phrifysgolion.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Trafnidiaeth

Rydym yn gwella sut mae pobl yn teithio ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar drawsnewid rheilffyrdd, diogelwch ar y ffyrdd, gwelliannau i fysiau, a chynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol.

**Mae'r prif feysydd gwario yn cynnwys:**

**Rheilffyrdd** – Gorffen uwchraddio Llinellau Craidd y Cymoedd, cyflwyno trenau tram newydd, a pharhau â'r cyllid ar gyfer llinell Calon Cymru.

**Ffyrdd** – Gwella diogelwch a gwydnwch ar draws y rhwydwaith, gan gynnwys cyllid ar gyfer yr A465.

**Bysiau** – Diogelu gwasanaethau bysiau a gorffen treialu'r cynllun tocynnau bws am £1 i bobl ifanc.

**Grantiau trafnidiaeth leol** – Cyllid ar gyfer cerdded, beicio, diogelwch ar y ffyrdd, gwefru cerbydau trydan a ffyrdd lleol.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Cyfiawnder Cymdeithasol

Mae cyllid Cyfiawnder Cymdeithasol yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar y rhai sydd fwyaf o angen cymorth.

**Mae'r prif feysydd gwario yn cynnwys:**

**Y Gronfa Cymorth Dewisol** – Taliadau arian parod brys i bobl sydd mewn argyfwng.

**Taclo tlodi** – Cymorth i'r grwpiau sy'n cael eu heffeithio fwyaf, gan gynnwys teuluoedd â phlant, aelwydydd un person, pobl anabl a chymunedau ethnig leiafrifol.

**Y Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol** – Helpu cymunedau i brynu a rheoli asedau lleol.

**Tlodi plant** – Cymorth wedi'i dargedu i blant mewn cartrefi incwm isel.

**Cam-drin domestig a chydraddoldeb** – Gwasanaethau i ddioddefwyr a rhaglenni sy'n dathlu cymunedau amrywiol Cymru.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

Mae'r cyllid hwn yn helpu i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn rhedeg yn esmwyth – gan dalu am staff, adeiladau, systemau TG a chefnogi'r Gymraeg.

**Mae'r prif feysydd gwario yn cynnwys:**

**Y Gymraeg** – Cyllid ar gyfer Cymraeg 2050, Comisiynydd y Gymraeg, a sefydliadau cenedlaethol fel yr Urdd a'r Eisteddfod.

**Trawsnewid digidol** – Moderneiddio systemau'r llywodraeth.

**Cysylltiadau rhyngwladol** – Cynnal cysylltiadau byd-eang Cymru.

**Ymateb mewn argyfwng** – Cydgysylltu ar draws y llywodraeth ar gyfer achosion mawr o darfu.

**Gweithrediadau Llywodraeth Cymru** – Costau staff, systemau TG ac adeiladau.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



Mae rhagor o wybodaeth am Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gael yma:

**www.llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2026-2027**

Os oes gennych gwestiynau neu adborth, cysylltwch â:

**TrysorlysCymru@llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53819, ISBN digidol 978-1-83715-932-1

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg